

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C

13 Tachwedd 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 381

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
	Hugh Evans	(Darpar Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Rhys Bevan	(Rheolwr Prosiectau) (eitem 5)
	Catrin Hughes Roberts	(Cyfarwyddwr Partneriaethau) (eitem 5)

1. Croeso a Datganiadau diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 380 (a gynhaliwyd ar 16.10.14)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 380.

Derbyniwyd y cofnodion.

3. Materion yn Codi

Esboniwyd fod y Cadeirydd ac ECS wedi trafod fformat y cyflwyniad interim i Ymddiriedolaeth y BBC ac wedi cytuno y byddai S4C yn darparu crynodeb o'r adroddiad interim fydd yn sail i adroddiad ECS i'r Ymddiriedolaeth yr wythnos nesaf.

4. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 Arwyddo Cytundeb Fframwaith

Arwyddwyd y cytundeb fframwaith rhwng S4C a PDDS ar ddydd Llun, 20fed o Hydref. Roedd y Cadeirydd, John Davies a nifer o swyddogion S4C wedi mynychu'r digwyddiad ynghyd â nifer sylweddol o randdeiliaid.

4.2 Cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, Ken Skates AC

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd â'r Dirprwy Weinidog newydd ar 12fed o Dachwedd a chafwyd cyfarfod cadarnhaol a chyfle i drafod nifer o faterion perthnasol.

4.3 Materion wedi eu neilltuo / Polisi Dirprwyo

Cyflwynwyd drafft pellach o'r ddogfen sy'n nodi'r Materion wedi eu neilltuo a fydd yn atodiad i'r Rheolau Sefydlog ac esboniwyd fod y drafft yn ymgorffori sylwadau'r Aelodau o gyfarfod diwethaf yr Awdurdod ac yn sgil trafodaethau rhwng HJ/IHJ/PW.

Cafwyd trafodaeth am y drafft diwygiedig, a phenderfynwyd cynnwys y newidiadau canlynol.

Para 5 y cyflwyniad – angen cynnwys geiriad ar ddiwedd y paragraff i esbonio fod y Bwrdd Strategol yn atebol i'r Awdurdod drwy'r Prif Weithredwr.

Pwynt 3 – angen addasu'r geiriad yn ymwneud â phenodiadau i'r Bwrdd Masnachol fel a ganlyn "Cymeradwyo penodiadau a diswyddiadau cyfarwyddwyr" o dan y pennawd Masnachol.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am sut i ddiffinio'r hyn sy'n sylweddol (h.y. materiality) mewn perthynas ag amrywiadau oddi fewn i gyllideb S4C. Cymeradwywyd y ddogfen yn amodol ar y newidiadau uchod.]

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 [Crynodeb: Trafodwyd mater masnachol.]

5.2 iPlayer

Croesawyd Rhys Bevan i'r cyfarfod a chyflwynodd adroddiad cynnydd parthed cynllun yr iPlayer. Cyflwynodd luniau o sut y bydd S4C yn ymddangos o fewn yr iPlayer ar nifer o ddyfeisiau.

Esboniodd fod bwriad i lansio gwasanaeth S4C ar yr iPlayer ar 25 Tachwedd a bod cynllun hyrwyddo yn cael ei ddatblygu er mwyn codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb S4C ar yr iPlayer yn ogystal â pharhad gwasanaeth Clic.

Holwyd a fydd modd lawr lwytho deunydd S4C o'r iPlayer yn ogystal â'i wylïo'n

fyw neu ar alw. Cadarnhawyd y bydd yn bosib lawr lwytho cynnwys S4C maes o law, ond ni fydd modd gwneud hyn am gyfnod gan fod angen datblygu meddalwedd penodol er mwyn galluogi hyn.

Cafwyd trafodaeth am ddefnydd o'r iPlayer y tu allan i Gymru a chadarnhawyd y bydd modd gwyllo cynnwys S4C trwy'r Deyrnas Unedig, ond ni fydd modd ei wyllo tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Nododd IHJ ei fod yn credu y bydd presenoldeb brand a chynnwys S4C ar yr iPlayer yn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaeth S4C yng Nghymru a thu hwnt, ac y bydd y cynllun marchnata yn targedu gwylwyr craidd, yn ogystal â gwylwyr newydd. Gobeithir cydweithio gyda sefydliadau a phartneriaid er mwyn hyrwyddo presenoldeb S4C, a manteisio ar gysylltiadau a bas-data partneriaid lle bo hynny'n bosib.

Nododd ECS y dylid diolch i dîm cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau presenoldeb S4C ar yr iPlayer. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth i gyfleu diolch yr Awdurdod am eu holl gymorth gyda'r prosiect.

Diolchodd y Cadeirydd i RhB am y cyflwyniad ac am y datblygiadau cyffrous gyda'r iPlayer. Gadawodd RhB y cyfarfod.

5.3 Marchnata a defnydd o gronfeydd data

Cafwyd trafodaeth am sut i dargedu marchnata i garfannau gwahanol o wylwyr gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac e-byst rheolaidd gan ddefnyddio bas data o ddefnyddwyr S4C.

Nodwyd y gallai hen fas-data greu problemau i S4C, megis manylion ddim yn gyfredol a phobl yn derbyn mwy nag un cyfarchiad gan S4C ac awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar greu bas-data o'r newydd a gwneud hyn ar lawr gwlad mewn digwyddiadau cymunedol ar draws Cymru.

Esboniodd IHJ fod grŵp mewnol wedi ei sefydlu er mwyn llunio cynllun gwaith ar gyfer cynyddu defnydd S4C o ddata am wylwyr, gan gynnwys ystyried sut i gasglu data am ddefnyddwyr, sut i ddefnyddio'r cronfeydd data sydd eisoes yn bodoli o fewn S4C, sut i gasglu bas-data newydd a sut i gyfathrebu gyda, a chyflwyno gwybodaeth i ddefnyddwyr yn rheolaidd.

Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth benodol i faterion yn ymwneud â chyfathrebu personol gyda'r gynulleidfa maes o law.

Cyfeiriwyd at bobl ifanc yn benodol a holwyd a oedd bwriad i dargedu marchnata i'r garfan hon yn benodol. Esboniwyd bod cynllun peilot Llysgenhadon ar waith o fewn nifer o ysgolion ac fel rhan o'r cynllun bydd ymgyrch benodol ar gyfer iPlayer.

Nodwyd fod swyddogion yn y broses o asesu perfformiad y cynllun llysgenhadon mewn ysgolion uwchradd, gan gynnwys ystyried ai targedu disgyblion chweched dosbarth neu athrawon yw'r dull mwyaf llwyddiannus o gyfleu gwybodaeth am

S4C.

5.4 Clic Rhyngwladol

Rhodddwyd diweddariad i'r aelodau ar y gwaith o geisio hawliau ychwanegol i alluogi S4C i gyhoeddi ei chynnwys ledled y byd y tu allan i'r DU. Eglurwyd bod materion yn ymwneud â hawliau tiriogaethol yn broblematig, yn enwedig yr hawliau i gerddoriaeth o fewn rhaglenni. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ac mae S4C wedi dod i ddealltwriaeth mewn egwyddor ar ddefnyddio sawl math o gerddoriaeth gyda'r cyrff perthnasol sy'n cynrychioli deiliaid hawliau ynglŷn â gwneud Clic ar gael ar-lein yn rhyngwladol.

Roedd llawer o waith yn dal i'w wneud o ran rhoi trefniadau newydd yn eu lle a chlirio hawliau perthnasol, a nododd IHJ nad oedd yn credu fod adnoddau presennol S4C yn galluogi swyddogion i flaenoriaethu'r gwaith hwn ar draul materion yn ymwneud â'r gwasanaeth ei hun.

Penderfynwyd y dylid cyhoeddi cynnwys oedd ar gael yn rhyngwladol pan fydd rhaglenni neu gyfresi wedi eu clirio ar gyfer eu cyhoeddi'n rhyngwladol yn hytrach nac aros nes bod holl gynnwys cyfredol S4C ar gael.

5.5 Hyfforddiant

Cyflwynodd IHJ a CHR ddiweddariad ar bolisi hyfforddiant S4C ac esboniwyd fod swyddogion yn gweithredu'r polisi presennol a'u bod yn dal i ddisgwyl am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru parthed eu bwriadau yn y maes.

Roedd CHR wedi cynnal trafodaethau gyda'n partneriaid gan gynnwys Cyfle, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Skillset er mwyn ceisio cynllunio buddsoddiad S4C yn well ar gyfer y dyfodol.

Nododd IHJ fod bwriad i greu cynllun pum mlynedd ar gyfer buddsoddiad S4C ym maes hyfforddiant, ond y byddai hyn yn amodol ar lefel ariannu S4C yn y dyfodol.

Holwyd am adolygiadau interim gwaith Skillset ac a oedd S4C yn cymryd i ystyriaeth gynnwys adolygiadau o'r fath wrth ystyried blaenoriaethau hyfforddiant a lefel buddsoddiad. Esboniwyd fod S4C yn ystyried adroddiadau am berfformiad yr asiantaethau ac yn ogystal fod gan S4C gynrychiolaeth ar fwrdd Skillset yng Nghymru a bod hyn yn rhoi'r cyfle i S4C fonitro'r gwaith yn well.

Awgrymwyd y dylai S4C gyflwyno rhagor o wybodaeth am fuddsoddiad ac ymrwymiad S4C i hyfforddi er mwyn i randdeiliaid ddeall yn well rôl bwysig S4C yn y maes.

Diolchwyd i IHJ a CHR am gyflwyno'r diweddariad.

5.6 Y Drefn Gomisiynu

[**Crynodeb:** Cyfeiriodd IHJ at ei adroddiad ysgrifenedig yn ymwneud â'r drefn gomisiynu a chafwyd trafodaeth am ddull gweithredu S4C ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd DRh mai nod yr adran oedd sicrhau fod y syniadau gorau yn cyrraedd y sgrin am y pris gorau posibl. Esboniwyd nad oedd S4C yn cynnig arian datblygu i gwmnïau ar hyn o bryd, ond hwyrach y dylid ystyried hyn ar gyfer y dyfodol.]

5.7. [Crynodeb: Trafodwyd gwybodaeth a ddarparwyd i S4C yn gyfrinachol.]

5.8. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Strategol

Cyflwynodd IHJ fersiwn ddiwygiedig o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Strategol a Rheoli ac esboniodd ei fod wedi ei ddiweddarau yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref a thrafodaethau'r Bwrdd Strategol a Rheoli.

Cyfeiriwyd at drefniadau rheoli cyllid S4C gan nodi fod yr adran gyllid yn adrodd i'r Bwrdd drwy IHJ. Esboniodd IHJ fod cyfarfodydd misol ffurfiol yn cael eu cynnal gyda'r Prif Swyddog Cyllid, a bod SW hefyd yn adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd Strategol yn fisol gydag adroddiadau'r Awdurdod hefyd yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Strategol. Roedd rhesymau ymarferol tu ôl i hyn gan fod rhan fwyaf o waith y Bwrdd Strategol yn ymwneud â materion nad oedd yn berthnasol i'r adrannau cyllid a materion technegol.

Cyfeiriwyd at berthynas y Bwrdd gyda'r Awdurdod ac esboniwyd fod y Bwrdd yn atebol i'r Awdurdod drwy'r Prif Weithredwr. Penderfynwyd y byddai'r berthynas yn cael ei esbonio yn rhagair y ddogfen Materion wedi eu neilltuo.

Diolchwyd i IHJ am gyflwyno'i adroddiad.

6. Rhaglenni'r mis aeth heibio

Esboniwyd y bydd cyfle o dan y drefn waith chwarterol ym mhob cyfarfod misol i'r Aelodau drafod rhaglenni'r mis aeth heibio, gyda thrafodaeth fanylach yn cael eu cynnal unwaith bob chwarter pan fydd yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi yn cael ei gyflwyno.

[Crynodeb: Trafodwyd nifer o gyfresi ynghyd â materion yn ymwneud a rhaglenni gan gynnwys yr arlwy chwaraeon, cydbwysedd pynciau'r rhaglenni ffeithiol a phatrwm darlledu'r **Ŵyl Cerdd Dant.**]

7. Materion Chwarterol: Adroddiad Cyllid Chwarter 2

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllid Chwarterol gan SW.

Cyflwynodd ddau adroddiad i'w cymharu - y gyntaf ar ffurf bresennol yr adroddiad cyllid a'r ail yn cynnig fformat newydd ar gyfer yr adroddiadau chwarterol. Esboniwyd fod yr ail fersiwn yn ceisio cyfleu gwybodaeth am wariant S4C ar sail debyg i gategoriâu gwariant yr Adroddiad Blynyddol.

Eglurodd SW ei bod wedi cynnwys prif benawdau'r adroddiad blaenorol ar gyfer yr adroddiad newydd, ond nid oedd pob llinell o'r gyllideb wedi eu cynnwys.

Penderfynwyd y dylid cynnwys gwybodaeth am wariant ac ymrwymadau hyd at ddyddiad yr adroddiad o hyn allan, a pharhau i fonitro lefel manylder yr

adroddiadau er mwyn sicrhau fod yr Awdurdod yn derbyn gwybodaeth ddigonol ar gyfer craffu cyfrifon rheoli S4C.

Diolchwyd i SW am gyflwyno'r adroddiad.

8. Pwnc Strategol – Isdeitlo

[**Crynodeb:** Esboniodd y Cadeirydd mai dyma oedd y drafodaeth chwarterol cyntaf am bwnc strategol o dan y cynllun gwaith newydd. Cafwyd trafodaeth am y ddarpariaeth isdeitlo presennol gan ystyried y pwrpas, ein cyfrifoldebau statudol, y gost, y defnydd o isdeitlo agored a gofynion y gynulleidfa.]

9. Rheon Tomos

Nododd y Cadeirydd y bydd tymor RhT fel Aelod o'r Awdurdod yn dod i ben ar 19 Tachwedd a diolchodd iddo ar ran S4C am ei wasanaeth diflino i S4C dros gyfnod o wyth mlynedd fel aelod, cadeirydd y pwyllgor archwilio a rheoli risg, is-gadeirydd a chadeirydd dros dro, gan ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Diolchodd Rheon i'r aelodau a'r swyddogion am eu cyfeillgarwch a'u holl gefnogaeth dros y blynyddoedd.

10. Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth

Cyflwynwyd Adroddiad y Wifren Gwylwyr.

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd a thrafodwyd yr Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth.]

11. Adroddiadau'r Pwyllgorau

Cyflwynwyd adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 15 Hydref a nodwyd y byddai cyflwyniad am weithgareddau masnachol S4C yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

12. Materion Eraill:

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y drafodaeth gadarnhaol a gafwyd ymysg yr Aelodau parthed y Diwrnod i Drafod arfaethedig i'r Awdurdod yn Ionawr gan ofyn i'r Aelodau gyflwyno unrhyw awgrymiadau ar gyfer pynciau trafod y diwrnod iddo ef neu'r Ysgrifennydd er mwyn iddynt lunio agenda drafft.

Cyflwynwyd Rhaglen Waith 2015 i'r Awdurdod er gwybodaeth a nodwyd y bydd y Rhaglen Waith yn cael ei ddiweddarau yn dilyn trafodaethau gyda chadeiryddion y Pwyllgorau.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 11 Rhagfyr 2014 yng Nghaerdydd